## Arolwg am Ddementia

## Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Cynllun Gweithredu Ceredigion ar gyfer Dementia

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal arolwg ynghylch yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd i gynorthwyo pobl sydd â dementia a'r rheiny sy'n gofalu amdanynt a'r hyn y gallwn ni ei wneud i wella eu bywydau.

Rydym am glywed eich barn chi. Nid oes angen i chi lanw pob rhan o'r arolwg ond rydym am gael gwybod am yr hyn sy'n bwysig i chi.

Gofynnwn i chi ateb y cwestiynau hyn fel y gallwn ni wella ein gwasanaethau i chi. Bydd canlyniadau'r arolwg yn rhoi syniad i ni o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud hyd yma.

Gallwch chi lanw'r ffurflen o fewn 10-15 munud ond bydd hyn yn dibynnu ar faint o amser yr ydych chi'n ei gymryd i ateb pob cwestiwn. Mae modd cwblhau'r ffurflen ar-lein neu lanw copi papur

Diolch am roi o'ch amser i ddarparu'r wybodaeth hon.

Os ydych chi am dderbyn yr ymgynghoriad hwn mewn fformat arall (er enghraifft, fersiwn sy'n cynnwys print bras neu fersiwn hawdd ei ddeall), ffoniwch ni ar 01545 570881 neu anfonwch neges i clic@ceredigion.gov.uk

*Mae'r arolwg hwn yn cynnwys cwestiynau aml-ddewis, ond ni fydd yn cynnwys data personol adnabyddadwy. Mae modd defnyddio'r blychau o dan y cwestiynau i roi atebion ysgrifenedig. Gofynnwn i chi beidio â defnyddio'r blychau hyn i ddarparu gwybodaeth bersonol. Dim ond gwybodaeth neu farn sy'n ymwneud â'r cwestiwn dan sylw y dylech chi eu rhoi.*

**DYDDIAD CAU: 31 Mawrth 2023**

## 1. Gwybodaeth amdanoch chi

Dewiswch yr opsiwn sydd fwyaf perthnasol i chi:

- Rwy'n unigolyn sy'n byw gyda diagnosis o ddementia
- Rwy'n poeni y gallai fod gennyf rai o symptomau dementia nid wyf wedi derbyn diagnosis o ddementia
- Rwy'n ofalwr di-dâl ac mae gennyf brofiad o ofalu am unigolyn sy'n byw â dementia
- Rwy'n ofalwr sy'n derbyn tâl / gweithiwr gofal / cynorthwyydd personol ac rwy'n cwblhau'r arolwg hwn ar ran unigolyn sy'n byw â dementia
- Rwy'n weithiwr proffesiynol ac rwy'n cwblhau'r arolwg hwn ar ran unigolyn sy'n byw â dementia
- Rwy'n cwblhau'r arolwg ar ran aelod o'r teulu sy'n byw â dementia
- Rwy'n un o drigolion Ceredigion ac mae gennyf ddiddordeb yn y maes hwn
- Arall: ………………..

Ble'r ydych chi'n byw?

- Yng ngogledd Ceredigion
- Yng nghanol Ceredigion
- Yn ne Ceredigion
- Rhowch eich cod post

| Beth yw eich oedran? | Ar hyn o bryd | Pan gawsoch chi'r diagnosis |
|---|---|---|
| Rwy'n iau na 30 oed | | |
| Rwy'n 31-50 oed | | |
| Rwy'n 51-65 oed | | |
| Rwy'n 65+ oed | | |
| Nid wyf wedi derbyn diagnosis | | |

Os nad ydych chi wedi derbyn diagnosis, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich sefyllfa chi orau?

- Nid wyf wedi trafod unrhyw bryderon sydd gennyf am fy nghof gyda neb arall
- Mae aelodau'r teulu wedi sylwi ar rai pethau
- Rwyf wedi trafod y mater â'r Meddyg Teulu
- Rwyf yn aros am ddiagnosis
- Arall

## 2. Eich gwybodaeth

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae gennyf wybodaeth a dealltwriaeth dda o ddementia ac rwy'n gwybod sut y mae modd cael diagnosis o ddementia. | | | | | |
| Rwy'n gwybod pa gamau y mae angen i bobl eu cymryd yn eu bywydau er mwyn lleihau'r risg o ddementia neu oedi dementia. | | | | | |
| Rwy'n adnabod arwyddion cynnar dementia. | | | | | |
| Rwy'n gwybod am y mathau o ddementia sy'n bodoli ac rwy'n medru adnabod y symptomau. | | | | | |
| Rwy'n medru gwneud fy mhenderfyniadau fy hunan ac mae gennyf reolaeth a dylanwad dros y penderfyniadau sy'n ymwneud â mi | | | | | |

Beth sydd angen i ni ei wneud i gynyddu'r wybodaeth sydd gan bobl sy'n byw â dementia a/neu eu gwneud nhw'n fwy ymwybodol o'r hyn sydd ar gael iddynt?

## 3. Gwasanaethau Lleol / Y Gymuned Leol

| | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno** | **Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytuno** | **Anghytuno'n gryf** |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n gwybod pa wasanaethau sydd ar gael yng Ngheredigion. | | | | | |
| Wrth i wasanaethau gael eu cynllunio, rwy'n gwybod bod fy amgylchiadau a'm anghenion yn cael eu hystyried. | | | | | |
| Rwy'n derbyn cefnogaeth sy'n fy helpu i fyw fy mywyd bob dydd. | | | | | |
| Rwy'n byw mewn cymuned gefnogol sy'n barod ei chymwynas ac rwy'n teimlo bod pobl y gymuned yn fy ngwerthfawrogi ac yn fy neall (h.y. Cymunedau Dementia Gyfeillgar / Cymunedau sydd o blaid pobl hŷn) | | | | | |
| Mae amrywiaeth o wasanaethau ar gael ac maent yn fy nghefnogi â phob agwedd ar fy mywyd bob dydd. Mae hyn yn caniatáu i mi aros gartref, parhau'n rhan o'r gymuned a mwynhau bywyd o'r ansawdd gorau. | | | | | |
| Mae gennyf ymdeimlad o berthyn ac rwy'n teimlo fy mod yn rhan werthfawr o fywyd y gymuned a bywyd yn ehangach. | | | | | |

Beth yw'r peth pwysicaf y gallai eich cymuned leol ei wneud i'ch helpu chi i fyw'n dda â dementia?

## 4. Y dyfodol

| Cwestiwn | Cytuno'n gryf | Cytuno | Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae gennyf reolaeth dros fy mywyd ac rwy'n derbyn cefnogaeth fel y gallaf wneud y pethau sy'n bwysig i mi | | | | | |
| Rwyf wedi derbyn diagnosis cynnar ac roedd y modd y cefais wybod am hyn yn sensitif. | | | | | |
| Mae gennyf fynediad at lety digonol. Gellir addasu'r llety hwnnw er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau yn fy anghenion. | | | | | |
| Mae gennyf fynediad at lety arbenigol sy'n ddigonol. Mae'r gofal a ddarperir yno yn cael ei addasu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau yn fy anghenion. | | | | | |
| Rwy'n medru gwneud penderfyniadau ar hyn o bryd am y gofal yr wyf yn dymuno ei gael yn ddiweddarach yn fy mywyd. | | | | | |
| Bydd pobl sydd wedi'u hyfforddi ym maes dementia yn gofalu amdanaf a bydd gofal lliniarol o'r ansawdd uchaf yn cael ei ddarparu i'm cefnogi yn ystod fy mlynyddoedd olaf | | | | | |
| Mae gennyf wybodaeth o'r ystyriaethau ymarferol a chyfreithiol sy'n gysylltiedig â chynllunio ar gyfer bywyd gyda dementia (gan gynnwys atwrneiaeth arhosol) | | | | | |

O ran y gofal yr ydych chi'n ei dderbyn yng Ngheredigion, pa elfen yw'r un bwysicaf a sut y byddai modd ei gwella?

## 5. Y gefnogaeth yr ydych yn ei derbyn

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n teimlo bod fy meddyg teulu yn fy nghefnogi a'i fod / a'i bod yn deall fy anghenion. | | | | | |
| Rwyf wedi derbyn digon o wybodaeth a chyngor fel y gallaf wneud penderfyniadau am y presennol a'r dyfodol. | | | | | |
| Mae gan fy ngofalwr fynediad at ragor o wybodaeth sy'n berthnasol iddo ef / iddi hi ac mae'n deall pa fudd-daliadau / buddion y mae hawl ganddo / ganddi eu cael. | | | | | |
| Mae gennyf wybodaeth am rwydweithiau arall, mae rhwydweithiau eraill yn fy nghefnogi ac mae gennyf fynediad at rwydweithiau eraill. Mae hyn yn cynnwys ymwneud â phobl sydd mewn sefyllfa debyg i mi. | | | | | |
| Mae gan y gofalwyr eu rhwydwaith cymorth eu hunain sy'n gweddu i'w hanghenion. | | | | | |
| Gallaf ddewis pa gymorth sydd orau i mi, felly nid wyf yn teimlo fy mod yn faich ar eraill. | | | | | |

O ran y wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â gofal dementia yng Ngheredigion, pa elfen yw'r un bwysicaf a sut y byddai modd ei gwella?

| |
|---|
| |

## 6. Cefnogaeth y gymuned

| Cwestiwn | Cytuno'n gryf | Cytuno | Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n teimlo ei bod yn hwylus i mi ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn fy ardal i. | | | | | |
| Rwy'n ei chael hi'n hawdd cyflwyno ceisiadau sy'n ymwneud â thai ac addasiadau. | | | | | |
| Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy nghartref a'm cymuned gan gynnwys yn y siopau, yn y tafarndai, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon / diwylliannol ac wrth gyflawni unrhyw weithgareddau eraill. | | | | | |
| Rwyf innau a'm gofalwr yn parhau i gael y cyfle i ddatblygu diddordebau a rhwydweithiau cymdeithasol newydd. | | | | | |
| Mae eraill yn cydnabod bod fy helpu i feithrin perthynas â phobl eraill yn bwysig iawn. | | | | | |
| Mae pobl yn gwrando arnaf ac mae'r gymuned a'r gwasanaethau iechyd yn cynnig cefnogaeth dda i mi. | | | | | |

O ran y gefnogaeth a ddarperir yng Ngheredigion i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd â dementia a'u gofalwyr, beth yw'r gefnogaeth bwysicaf a sut y byddai modd gwella'r gefnogaeth honno?

7. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech chi eu gwneud?

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Ffurflen Monitro Cydraddoldeb

Mae'r cwestiynau hyn yn ddewisol, fodd bynnag mae'n ofynnol i'r Cyngor ddeall a yw'r ymgynghoriad wedi cyrraedd y bobl iawn (yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010) ac i ddeall sut y gallai'r cynnig effeithio ar wahanol grwpiau, gan ein galluogi i fynd i'r afael â hyn os gallwn ni.

Yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, cedwir unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani yn y cwestiynau canlynol yn gyfrinachol at ddibenion dadansoddi data yn unig.

## Ystyriaethau Ar Gyfer Yr Iaith Gymraeg

1. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynnig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg yn benodol ar:

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
-

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

---

2. Eglurwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y cynnig arfaethedig, yn eich barn chi, er mwyn:

- sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

---

## Oedran

3. Beth yw eich grŵp oedran?

- ◯ O dan 16
- ◯ 16 – 24
- ◯ 25 – 44
- ◯ 45 – 64
- ◯ 65+
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud

## Rhyw

4. Beth yw eich rhyw?

- ◯ Gwryw
- ◯ Benyw
- ◯ Arall
- ◯ Mae'n well gan eraill beidio â dweud

5. Ydy'ch rhyw yn awr yr un fath â'r un a ddyranwyd i chi ar eich genedigaeth?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac ydy
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud

## Cyfeiriadedd Rhywiol

6. Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau'r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun?

* Noder: Dylid gofyn y cwestiwn hwn i bobl dros 16 oed yn unig.

- ◯ Heterorywiol / Strêt
- ◯ Dyn Hoyw
- ◯ Menyw Hoyw /Lesbiaidd
- ◯ Deurywiol
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall ____________________

## Partneriaeth

7. Beth yw eich statws partneriaeth?

- ◯ Sengl
- ◯ Priod
- ◯ Byw gyda Phartner
- ◯ Wedi Ysgaru
- ◯ Gweddw
- ◯ Partner Sifil
- ◯ Wedi Gwahanu
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall ___________

## Hunaniaeth Genedlaethol

8. Sut fyddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

- ◯ Cymro / Cymraes
- ◯ Albanwr / Albanes
- ◯ Prydeiniwr / Prydeinwraig
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud
- ◯ Sais / Saesnes
- ◯ Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
- ◯ Gwyddel / Gwyddeles
- Arall ____________________

## Grŵp Ethnig

9. Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp ethnig neu'ch cefndir orau:

- ◯ Asiaidd
- ◯ Cymysg
- ◯ Teithwyr Sipsi
- Arall ___________
- ◯ Du / Affricanaidd / Caribïaidd
- ◯ Gwyn
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud

## Iaith

10. Beth yw'ch dewis iaith?

- ◯ Cymraeg
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud
- ◯ Saesneg
- Arall ____________________

11. Ydych chi'n deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

- ◯ Deall Cymraeg Llafar
- ◯ Darllen Cymraeg
- ◯ Dim un o'r uchod
- ◯ Siarad Cymraeg
- ◯ Ysgrifennu Cymraeg
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud

## Anabledd

12. A oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch tymor hir sy'n lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?

◯ Oes ◯ Nac Oes

◯ Gwell gennyf beidio â dweud

13. Os ydych wedi ateb 'oes', nodwch yr hyn sy'n berthnasol i chi:

◯ Nam ar y Clyw ◯ Nam ar y Golwg

◯ Nam Lleferydd ◯ Anableddau Dysgu

◯ Materion Iechyd Meddwl ◯ Nam ar y Lleferydd

Arall__________

## Cyfrifoldebau Gofalu

14. Ydych chi'n gofalu am rywun neu'n darparu cymorth neu gefnogaeth i aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd:

- Cyflwr iechyd / anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor; neu
- Problemau yn ymwneud â henaint

◯ Ydw ◯ Nac ydw

◯ Gwell gennyf beidio â dweud

## Crefydd neu Gred

15. Beth yw eich crefydd?

◯ Cristion (pob enwad) ◯ Bwdhydd

◯ Hindŵ ◯ Mwslim

◯ Sikh ◯ Iddew

◯ Anffyddiwr ◯ Dim crefydd

◯ Gwell gennyf beidio â dweud Arall __________________

## Hysbysiad Preifatrwydd

Caiff y wybodaeth a roddir gennych ei phrosesu gan Gyngor Sir Ceredigion, a fydd yn ei phrosesu yn unol â gofynion y GDPR a’r Ddeddf Diogelu Data.

Mae yna rhagor o wybodaeth ar sut y caiff data personol ei brosesu ar gael yn Hysbysiad Preifatrwydd y Cyngor: www.ceredigion.gov.uk/preifatrwydd